

**Nodiadau o gyfarfod a gafodd ei gynnal gyda staff a llywodraethwyr
yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog**

22 Tachwedd am 3:30pm

**Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i ad-drefnu darpariaeth ysgolion yn ardal
Pontypridd**

Yn bresennol:

Esther Thomas (ET), Cyfarwyddwr Gwasanaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant,
Lisa Howell, Swyddog Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
Martyn Silezin, Swyddog Strategaeth 14-19 oed
Sophie Nicholls, Swyddog Graddedig Carfan Cymorth Trefniadaeth yr 21^{ain} Ganrif
Gavin Tranter, Swyddog Gwasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr
Bethan Davies, Ymgynghorydd Adnoddau Dynol
65 o aelodau o staff yr ysgol a'r corff llywodraethu yn bresennol

Croesawodd Esther Thomas (ET) bawb i'r cyfarfod ac amlinellodd y cynnig, y rhesymau dros y cynnig, pwrpas y cyfarfod, y broses ymgynghori a'r amserlenni yn ymwneud â'r broses ymgynghori a'r cynigion eu hunain pe baen nhw'n cael eu gweithredu.

Pe bai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith, byddai'r Cyngor am wneud y canlynol:

- Datblygu cyfleusterau addysg ôl-16 oed yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Y Beddau, a Choleg y Cymoedd, Nantgarw;
- Creu dwy ysgol 3-16 oed newydd ym Mhontypridd a'r Ddraenen Wen;
- Gwella a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy adeiladu ysgol newydd ar safle Ysgol Heol-y-celyn - byddai'r adeilad yn uno'r ddarpariaeth Gymraeg yn Ysgol Heol-y-celyn ac Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton;
- Diwygio dalgylchoedd Ysgol Uwchradd Pontypridd, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen a dalgylch 6ed dosbarth Ysgol Gyfun Bryncelynnog i fodloni'n well y galw am leoedd ysgol;

Bydd y newidiadau yma yn cael eu cyflawni drwy wneud y canlynol:

- Cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain a throsglwyddo'r ddarpariaeth ôl-16 oed i Ysgol Gyfun Bryncelynnog neu Goleg y Cymoedd, Nantgarw. Ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n dewis addysg Gatholig, bydd darpariaeth chweched dosbarth ar gael yng Ngholeg Dewi Sant, Caerdydd;
- Cau Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gynradd Cilfynydd, a chreu ysgol 'bob oed' 3-16 oed newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd Pontypridd;

- Cau Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn a chreu ysgol 'bob oed' 3-16 oed newydd ar safle Ysgolion Cynradd ac Uwchradd y Ddraenen Wen. Bydd dosbarth arbenigol ADY dynodedig yr awdurdod lleol sy wedi'i leoli yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen hefyd yn trosglwyddo i'r ysgol newydd.
- Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn. Bydd y disgyblion hynny sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol newydd a bydd y disgyblion hynny sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Heol y Celyn yn symud i'r ysgol 3-16 oed newydd yn y Ddraenen Wen;

Diwygio'r dalgylchoedd i ddisgyblion 11-16 oed o'r tair ysgol uwchradd a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol drwy wneud y canlynol:

- Trosglwyddo ardal Graig Pontypridd (sy'n rhan o ddalgylch Ysgol Gynradd Maes-y-coed) i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd (ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhan o ddalgylch Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen);
- Trosglwyddo dalgylch Ysgol Gynradd Coedpenmaen i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd (ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhan o ddalgylch Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen);
- Trosglwyddo dalgylch Ysgol Gynradd Gwauncelyn i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer y Ddraenen Wen (ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhan o ddalgylch Ysgol Gyfun Bryncelynnog).

Y bwriad yw rhoi'r newidiadau ar waith erbyn Medi 2022.

Cyfeiriodd ET at yr wybodaeth fanwl sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori a oedd wedi'i dosbarthu, a'r ffurflen ymateb ynghlwm wrthi, (roedd rhagor o gopiâu o'r ddwy yn y cyfarfod) ac at dudalen 5 o'r ddogfen ymgynghori sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut gall pobl roi sylwadau.

Eglurodd ET y byddai'r cwestiynau / sylwadau / ymatebion yn cael eu cofnodi i'w cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori a fyddai'n cael ei fwydo yn ôl i'r Cabinet yn gynnar ym mis Ionawr 2019, ac adborth gan ddisgyblion yn yr un modd. Pwysleisiodd ET mai cyfnod ymgynghori oedd hwn a phe bai'r cynigion yn mynd ymlaen i'r cam nesaf (hysbysiad statudol), byddai gwrthwynebiadau yn cael eu derbyn a'u cofnodi ar y cam hwnnw.

Yna, cafodd cwestiynau eu gwahodd.

C *Un pryder sydd gyda ni fel ysgol yw bod chweched dosbarth gwell ar gyfer Bryncelynnog ond mae un yn Nantgarw hefyd. Sut byddwch chi'n cael disgyblion i ddod yma os ydyn nhw'n fwy tebygol o fynd (yn ddaeryddol) i Nantgarw?*

- A. Yn y pendraw, dewis y rhiant neu'r disgybl yw e. Mae'n bosibl bydd y coleg a'r ysgol yn cynnig cyrsiau Safon Uwch gwahanol. I rai disgyblion, gall coleg fod yn opsiwn gwell, ond mae llawer o rieni a disgyblion yn mynegi diddordeb mewn mynychu ysgol. Dydyn ni ddim wedi cael gwybodaeth fanwl gan rieni ynglŷn â hyn hyd yma a dydw i ddim o'r farn y bydden ni'n cael darlun cywir eto ond mae ein profiad hyd yn hyn gyda'r cynigion ar gyfer Cwm Rhondda - ac yn benodol Tonyrefail - yn un cadarnhaol, gyda disgyblion yn dewis yr ysgol yn hytrach na'r coleg i astudio pynciau Safon Uwch.
- A. Mae'n bwysig ystyried pa lwybr dysgu fyddai orau ar gyfer ein myfyrwyr. Bydd y trefniadau sydd ar hyn o bryd yn cael eu cefnogi a'u gweithredu'n llwyddiannus yn ysgolion Cwm Rhondda yn digwydd ym Mhontypridd a'r Ddraenen Wen. Mae gan yr ysgol gyfle gwyb i lunio darpariaeth newydd yma. Byddwn ni'n annog disgyblion i fynychu'r lleoliad priodol sy'n diwallu'u hanghenion unigol.
- A. Mae cyfraddau cadw yn Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen yn isel felly rydyn ni eisiau annog rhagor o fyfyrwyr Safon Uwch i fynychu Ysgol Gyfun Bryncelynnog, oherwydd bod yr ysgol yn gwella bob blwyddyn ac yn cyflawni canlyniadau da.

C. *Ond a fyddwn ni'n colli disgyblion o Ysgol Gwauncelyn?*

- A. Byddwch o bosibl, os yw'r newidiadau yn y dalgylch yn cael eu cymeradwyo. Serch hynny, rhaid nodi bod llefydd dros ben yn yr ysgol a chyhyd â bod llefydd dros ben yn yr ysgol, fydd disgyblion o Ysgol Gwauncelyn ddim yn cael eu gwrthod. Yn ogystal â hynny, yn y Cynllun Datblygu Lleol mae yna safleoedd tai strategol o fewn dalgylch yr ysgol a allai ychwanegu'n sylweddol at gapasiti'r ysgol yn y dyfodol.

C. *Ar hyn o bryd mae trefniadau cludiant ar waith - sut bydd hynny'n gweithio i ddisgyblion Pontypridd / y Ddraenen Wen?*

- A. Os yw disgyblion am astudio yma, bydd yr Awdurdod Lleol yn ariannu eu cludiant os ydyn nhw'n byw dros ddwy filltir i ffwrdd - yn unol â pholisi cludiant y Cyngor.

C. *Nid y gost yw'r broblem ond yn hytrach faint o amser bydd hi'n ei gymryd i gyrraedd.*

- A. Mae mwyafrif y disgyblion ar hyn o bryd yn y trefniadau consortiwm ac yn teithio i ysgolion gwahanol o fewn y diwrnod ysgol er mwyn astudio pynciau gwahanol. Rydyn ni'n cydnabod ei bod hi'n bosibl bydd gan rai disgyblion deithiau hirach ond bydd cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael ei darparu am ddim.

C. *Os bydd rhagor o blant, mae'n bosibl byddwn ni'n cael rhagor o staff. Ar gyfer*

beth fydd y £10 miliwn yn cael ei ddefnyddio?

- A. Mae hynny'n wir, byddai angen rhagor o athrawon. O ran yr adeilad, ein bwriad fydd ailfodelu rhai ardaloedd a chael gwared ar yr adeiladau sydd mewn cyflwr gwael a bydd hyn yn cael ei wneud ar y cyd gyda'r ysgol. Bydd y manylion yn cael eu datblygu os yw'r cynnig yn mynd rhagddo.

C. Oes cynlluniau gyda chi ar gyfer yr adeiladau?

- A. Dydy hi ddim yn bosibl i swyddogion ragweld beth fydd penderfyniad y Cyngor. Rydyn ni wedi gorfod cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am gyllid Band B yn rhan o'n Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Does dim opsiynau gan y swyddogion o ran gwella eiddo ysgolion ac os yw'r cynigion yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor, byddwn ni'n ymgynghori'n llawn â llywodraethwyr, staff a disgyblion yr ysgol.

C. Beth os na fydd y cyllid yn ddigon?

- A. Mae'r Cyngor yn ailystyried y gwariant yn gyson. Cawson ni newyddion da ddoe oherwydd i Lywodraeth Cymru gyhoeddi eu bod nhw am ymrwmo i gyfradd ymyrryd o 65% ar gyfer y cyfnod buddsoddi nesaf. Felly, bydd modd i ni ledaenu'r cyllid ymhellach a bod â mwy o hyblygrwydd o ran ariannu prosiectau yn y dyfodol.

C. Fe ddywedoch chi fod rhieni yn aml yn dewis ysgol yn seiliedig ar lwyddiant yn y dyfodol. Os bydd rhieni'n parhau i ddymuno anfon eu plant i ddod yma, fydd ein capasiti yna'n cynyddu? Dydy hi ddim yn ymddangos yn y ddogfen bod y niferoedd yn cynyddu llawer. Beth sy'n digwydd os na fydd nifer y disgyblion 11-16 oed yn gostwng llawer ond rydyn ni'n cael disgyblion Chweched Dosbarth ychwanegol o hyd?

- A. Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol leoedd dros ben a byddwn ni'n parhau i fonitro'r cyflenwad a'r galw am leoedd disgyblion. Os bydd angen capasiti ychwanegol, bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r angen yma a darparu llefydd ychwanegol.

C. Rydyn ni ar hyn o bryd mewn consortia gydag Ysgol y Pant. Fydd hynny'n cael ei effeithio?

- A. Mae cysylltiadau gwych wedi cael eu sodro a bydd y ddwy ysgol yn parhau i weithio gyda'i gilydd er lles y disgyblion. Serch hynny, os bydd nifer y disgyblion chweched dosbarth yn gwella, bydd modd cynnig rhagor o bynciau gwahanol a bydd angen i lai o ddisgyblion deithio i Ysgol y Pant ar gyfer eu dewisiadau cwricwlwm.

C. Fydden ni'n gadael Ysgol y Pant mewn sefyllfa fregus?

- A. Na, oherwydd bod gan Y Pant chweched dosbarth llwyddiannus a chynyddol.

C. Mae'n bosibl y bydden ni'n cystadlu yn uniongyrchol gyda'r coleg pe bai modd i ni gynnig yr un pynciau.

- A. Mae hynny'n wir. Mae'n bosibl bydd y ddau sefydliad yn cynnig yr un pynciau.
- C. *Rwy'n byw yn Nhon-teg. Beth yw'r rheswm dros anfon disgyblion Gwauncelyn i'r Ddraenen Wen yn hytrach na'u hanfon nhw yma?***
- A. Rhaid i'r Awdurdod Lleol reoli llefydd mewn ysgolion ac maen nhw'n adolygu'r rhain yn rheolaidd er mwyn paru cyflenwad â galw.
- C. *Mae'r rhieni yn poeni am deithio i'r Ddraenen Wen.***
- A. Bydd y rhan fwyaf o'r strydoedd sy'n rhan o'r ardal honno yn gymwys ar gyfer cludiant ysgol i'r Ddraenen Wen, ond tra bod lle yn yr ysgol yma, gall rhieni / disgyblion ddewis dod yma o hyd.
- C. *Tra ein bod ni'n sôn am adeiladu ar gyfer y dyfodol, does dim sicrwydd y caiff y datblygiadau tai hynny eu hadeiladu, ac yn Efail Isaf, rydyn ni'n cael ein hannog i wrthwynebu'r cynigion hynny.***
- A. Mae cais yn mynd o flaen y Cabinet heno am 400 o dai a byddai hynny'n denu nifer fawr o leoedd mewn ysgolion. Mae angen i'r Cyngor fod yn rhagweithiol i reoli'r cyflenwad a'r galw am leoedd mewn ysgolion yn strategol.
- A. Rydyn ni'n gwerthfawrogi nad yw pobl yn hoffi newid a thra bod llefydd yn ein hysgolion presennol, mae dyletswydd arnon ni i lenwi'r llefydd gwag yma cyn i ni drefnu capasiti newydd yn ein hysgolion.
- C. *Bydd modd iddyn nhw gael eu cludo i'r Ddraenen Wen and nid eu cludo yma?***
- A. Mae hynny'n wir achos mai dyna fyddai eu hysgol dalgylch pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo. Mae Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen hefyd yn ysgol dda ac mae angen i ni gael y cydbwysedd hwnnw.
- C. *Bydden nhw'n mynd i'r Ddraenen Wen o flwyddyn 7 i flwyddyn 11 ac yna yma ar gyfer y chweched dosbarth?***
- A. Bydden o bosibl, neu fe gân nhw ddewis lleoliad amgen, er enghraifft, y coleg.
- C. *Dydy'r map o'r dalgylch ddim yn arbennig o gywir o ran diffinio'r dalgylch ar gyfer y strydoedd hynny.***
- A. Mae modd darparu map mwy o faint i gyfeirio ato.
- C. *Roeddwn i wrth fy modd pan ddarllenais i'r ddogfen yma. Mae'n dweud y byddwch chi'n gwella'r ardaloedd ar gyfer ADY. Rwy'n gofyn ichi wella'r cyfleusterau ac ehangu'r uned Anghenion Dysgu Ychwanegol / Anhwylderau Cyfathrebu yma ar gyfer darpariaeth ôl-16 oed. Dyma'r cyfle i'w gael yn iawn. Ydy hyn wedi cael ei ystyried?***

A. Er clod i Senedd yr Ysgol, maen nhw wedi gofyn i ni ystyried hyn hefyd. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn rhan o'r adborth.

C. Mae gyda chi bum pwynt allweddol ac mae hwn yn un ohonyn nhw a does dim cyfeiriad arall i hyn yn y ddogfen - oes modd i chi'i gadw yn brif ffocws ac ehangu ein darpariaeth? Bydd hyn yn ein helpu ni i gyd-fynd â'r cynigion ADY newydd hefyd. Dydyn ni ddim am i hyn gael ei roi o'r neilltu a hoffen ni iddo gael ei ysgrifennu yn y cynigion o'r cychwyn cyntaf yn hytrach na bod yn rhywbeth sy'n cael ei ychwanegu. Rydyn ni'n aml yn cael ein hystyried ond yna ein hanghofio. Os ydyn ni'n mynd i fod yn ysgol sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif, rhaid ystyried eu hawliau i degwch a rhaid i bethau gael eu gweithredu yn hytrach na bod y sefyllfa'n 'ddigonol'. Os yw'n mynd i fod yn ganolfan o ragoriaeth, yna, rydych chi angen i hyn fod yn ganolfan o ragoriaeth i bawb.

A. Rydyn ni wedi talu sylw i'ch sylwadau a bydden ni'n eich annog chi i lenwi'r holiadur er mwyn lleisio'ch barn yn ffurfiol.

C. Y tu hwnt i'r strategaeth, beth fydd yr Awdurdod Lleol yn ei wneud i gefnogi'r dyheadau o fewn y cynllun? Bydd rhieni/disgyblion yn dylanwadu ar y cynnig trwy wneud dewisiadau naill ai i ddod yma neu fynd i'r coleg. A allai'r cynnig yma fethu os nad oes cefnogaeth i gwrdd â'r cynllun yma?

A. Fyddai'r Cyngor ddim wedi cyflwyno'r cynigion yma os na fyddai modd i ni gefnogi'r strategaeth yn y camau dilynol. Rydyn ni wedi llwyddo i gyflawni prosiectau yn y gorffennol a'n nod yw gwella safonau addysg mewn amgylchedd dysgu 21^{ain} Ganrif. Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, byddwn ni'n helpu'r ysgol yn ystod y broses bontio i sicrhau bod yr ysgol yn mynd o nerth i nerth.

C. Mae'r Llywodraethwyr yn siomedig gyda'r cae artiffisial newydd, gan na allwn ni chwarae rygbi.

A. Fe allwch chi chwarae rygbi ar y cae ac mae ganddo haen isaf sy'n lleihau sioc ar gyfer taclo. Dydy ymylon y cae ddim yn addas ar gyfer gemau rygbi i oedolion ond mae hwn yn gae pob tywydd ar gyfer sawl math o chwaraeon.

C. Allech chi adeiladu ar ein cae glaswellt?

A. Mae hwn yn gae sy'n rhan o'r ysgol ond sydd hefyd ar gyfer aelodau o'r gymuned a dydyn ni ddim yn adeiladu cyfleuster sydd dim ond ar gyfer rygbi. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol yn y cae rygbi gan ddarparu system ddraenio a chae glaswellt o safon uchel. Mae'r 3G felly yn ychwanegol at y cyfleusterau presennol sydd ar gael.

C. Does dim modd i chi chwarae hoci ar hwn chwaith.

A. Mae modd i chi chwarae hoci ar y cae yma ond does dim modd cynnal gemau

cynghrair i oedolion.

C. *Bydden ni wrth ein bodd yn hyrwyddo sawl math o chwaraeon hefyd ac mae methu â gwneud hyn yn broblem.*

C. *Does dim modd i chi chwarae pêl-droed timoedd llawn ar hwn chwaith oherwydd ei faint. Yn ogystal â hynny ac o ran cyfleusterau athletau, does dim cyfleusterau ar gyfer taflu morthwyl na disgen ac ati.*

A. Mae'r Cyngor yn buddsoddi'n sylweddol yn yr ysgol i wella cyfleusterau a dydy'r arian ddim ar gael i fuddsoddi mewn cyfleusterau safon stadiwm. Bydd y cyfleusterau sy'n cael eu darparu yn sicrhau bod yr ysgol yn gallu gwella'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm ar gyfer Addysg Gorfforol ac annog chwaraeon i'r holl ddisgyblion, gan wella eu hiechyd a'u lles.

C. *Chawson ni mo'r cyfle i leisio'n barn o ran cyllid a wnaiff y timoedd mo'i hurio oherwydd ei faint. O ran cyhoeddusrwydd fydd hyn ddim yn dda i ni os na all y chweched dosbarth ei ddefnyddio i chwarae chwaraeon arno.*

A. Dydy hyn ddim wedi digwydd gyda'r cyfleusterau 3G sydd wedi'u darparu ar gyfer ysgolion eraill. Mae'r caeau 3G yn ased sy'n perthyn i'r Cyngor ar gyfer disgyblion a'r gymuned ehangach. Serch hynny, rydyn ni wedi nodi'ch sylwadau.

C. *Yn dilyn gwario £24 miliwn yn Ysgol y Pant, siaradais i ag Owen Smith AS a ddywedodd mai Bryncelynnog a ddylai fod yr ysgol nesaf i gael adeilad newydd. Mae'n ymddangos yn annhebygol y byddai hyn yn dod yn safle newydd gydag ysgol newydd. Bydd hyn yn parhau i fod yn Ysgol Canol yr 20fed Ganrif o ran adeiladau.*

A. All y Cyngor ddim rhoi sylwadau ar sgwrs Owen Smith AS gyda'r ysgol. Mater rheoli i'r Cyngor y mae cynllunio llefydd ysgol. Mae'r Cyngor wedi ymgymryd â phrosiectau llwyddiannus i ailfodelu ysgolion sy'n rhan o'n heiddo i'w datblygu i ddarparu cyfleusterau 21^{ain} Ganrif. Am hynny, dydyn ni ddim yn cytuno â'r sylw yma.

C. *Ar y sail honno, dydy £10 miliwn ddim yn llawer ydy e?*

A. Bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn buddsoddi'n briodol yn yr ysgol ac os bydd angen cyllid ychwanegol, bydd yr Aelodau yn ystyried y mater ymhellach.

C. *Fyddwch chi'n ymgynghori â ni ar y newidiadau hynny?*

A. Byddwn. Byddwn ni'n cynnal ymgynghoriadau drwy gydol y broses.

C. *Fydd canolfan y chweched dosbarth yn rhan o'r ysgol neu ar wahân?*

A. Bydd yn rhan o'r ysgol yn bendant. Byddwn ni'n ystyried y safle yn ei gyfanrwydd ac yn gwella elfennau ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Bydd hynny o fudd i bob disgybl, nid dim ond myfyrwyr y chweched dosbarth.

C. Allwch roi sicrwydd imi y bydd yr ysgol yn rhan o broses cynllunio'r adeilad o'r cychwyn cyntaf.

A. Mae dau gam i'r broses yma. Mae'r ymgynghoriad presennol ar gyfer trefniadaeth yr ysgol a bydd yr ysgol yn cymryd rhan lawn yn natblygiad y safle os bydd y cynnig yn mynd rhagddo.

C. Yr ysgol sy'n penderfynu beth maen nhw'n ei gynnig o ran y cwricwlwm, felly, yn sicr, yr ysgol fydd yn arwain ar y cyfleusterau sydd eu hangen arnon ni.

A. Fel sydd wedi'i grybwyll eisoes, byddwn ni'n ymgysylltu â'r ysgol, a byddwch chi'n cymryd rhan helaeth yn y broses o ddylunio ac ailwampio'r cyfleusterau. Serch hynny, rhaid i'r ysgol ddeall bod angen dylunio ysgolion i safon benodol a bod rhaid iddyn nhw fodloni rheoliadau penodol a bydd y Cyngor yn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud.

C. A gafodd ymgynghoriad ei gynnal yng Nglynrhedynog ynglŷn â'i 3G?

A. Rydw i'n siomedig nad ydych chi'n fodlon ar y cae 3G. Mae ysgolion eraill yn RhCT a fyddai wedi bod wrth eu bodd gyda'r buddsoddiad o dros filiwn o bunnau mewn cae 3G a thrac athletau. Cyfleuster y Cyngor yw hwn ac rydyn ni angen sicrhau bod cydbwysedd o ran y ddarpariaeth ar draws y fwrdeistref sirol.

C. Ar gyfer staff a fydd efallai yn gorfod gwneud dewis o ran eu gyrfaedd yn yr ysgolion eraill sydd wedi bod yn rhan o'r broses ymgynghori, oes cynlluniau eraill i'w hadleoli yma?

A. Pe bai hyn yn mynd rhagddo, bydden nhw i gyd mewn sefyllfa dileu swydd, ond nid dyma'r achos yma. Os bydd swyddi gwag yma, bydden ni'n eu hannog i gyflwyno cais amdanyn nhw.

C. Os bydd pobl sydd am ddod yma, a fyddwn ni'n cael ein gorfodi i'w cymryd nhw?

A. Bydden ni'n gofyn i chi eu hystyried ac os nhw yw'r bobl orau, fe allech chi eu penodi. Bydd hwn yn fater i'r corff llywodraethu.

Rhoddyd diolchiadau i bawb am eu hamser a'u sylwadau a daeth y cyfarfod i ben.